Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Tachwedd 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Gadael popeth i'r Gîcs?

Yn ôl yr Harvard Review diweddaraf: Mae'n fwyaf tebygol y daw technoleg yn y ganrif newydd yn faes rheolwyr ac arweinwyr yn hytrach nag entrepreneuriaid, a bydd eu gallu hwy i harneisio ei grym a manteisio ar gyfle cudd y Rhyngrwyd yn ennill y blaen iddynt ar eu cyfoedion.

Ydych chi wedi bod yn euog o ddefnyddio cyfrifiaduron a'r Rhyngrwyd i wneud dim mwy na pherfformio tasgau sylfaenol ac wedi methu ag edrych i mewn i beth arall y gallai'r rhain ei gynnig i'ch gwneud yn rheolwr mwy effeithiol. Ydych chi'n caniatáu i'ch staff mwyaf TG-lythrennog a "gîcs" yn y cwmnïau rydych chi'n cystadlu â nhw ennill y blaen arnoch chi?

Y Gwrtaith ynteu'r Siswrn Tocio?

Ar un adeg, dywedodd Mike Brearley, cyn gapten criced Lloegr sydd bellach yn seicdreiddiwr, fod arwain tîm ychydig yn debyg i arddio, lle mae angen gwrteithio rhai planhigion a thocio rhai eraill.

Ydych chi'n adnabod eich tîm yn ddigon da i wybod pa aelodau yn arbennig y mae angen eu hannog i berfformio ar eu gorau, a pha aelodau y mae angen eu hatgoffa o'u dyletswyddau o bryd i'w gilydd er mwyn eu cadw i ganolbwyntio ar y dasg?

Rhoi Cyfle i Ieuenctid

Gwnaeth Leigh Clifford, Prif Weithredwr conglomerat mwyngloddio rhyngwladol Rio Tinto, sylw yn ddiweddar na ddylai uwch reolwyr fod ofn rhoi cyfle i bobl ifanc 'roi cynnig ar bethau', ond fe ddylen nhw dderbyn y byddan nhw'n gwneud camgymeriadau a bod yn barod i'w cefnogi.

Pa mor dda ydych chi am adael i'ch staff iau geisio ateb heriau newydd a fydd yn ymestyn eu galluoedd, mwyn iddyn nhw dyfu o ran profiad a hyder? Sut ydych chi'n rheoli'r risgiau dan sylw, o ystyried ei bod y anochel y bydd ambell i smonach ar hyd y ffordd?

Glynu at y Syniad Mawr

Un tro, fe ysgrifennodd Emile Chartier, athronydd Ffrengig yn y 19eg ganrif: Does dim byd sy'n fwy peryglus na syniad os mai dyna'r unig syniad sydd gennych chi.

I lawer o bobl, mae'n ddigon anodd dod o hyd i syniadau mawr a byddan nhw'n eu coleddu a'u meith fuoch chi erioed yn euog o drin eich syniad mawr fel petai'n hollwerthfawr a gwrthod unrhyw syniadau eraill rydych chi'n meddwl eu bod nhw'n tynnu'n groes i'ch gweledigaeth chi? Sut fyddwch chi'n derbyn syniadau 'gwell' pobl eraill heb gyfaddawdu eich arweinyddiaeth?

Yn Galw am Help!

Yn y ddau ddegawd diwethaf, gwelwyd mwy a mwy o gwmnïau ymgynghorwyr rheoli yn dod i'r amlwg, ac mae hyn bellach yn cyfrif am £115m y flwyddyn o'r diwydiant byd-eang. Ond mae cyn ymgynghorydd ac awdur David Craig yn honni mai gwastraff yw 60% o'r gwaith ymgynghori gan na fydd yn cael ei roi ar waith neu nid oedd ei angen yn y lle cyntaf.

Ydych chi'n cytuno â hyn? Beth fyddech chi'n ei ystyried yn sefyllfa lle gallech chi gyfiawnhau galw am help ymgynghorydd? Pa brawf fyddech chi'n ei ddefnyddio i benderfynu a oes gwir angen ymgynghorydd arnoch chi ynteu a ydych chi'n gwneud dim mwy nag osgoi tasg rheoli anodd neu annymunol?

Gwefannau Rheolaeth

I gael cipolwg letgroes ar fyd busnes, piciwch i mewn i www.businessballs.com. Mae'r wefan yn cynnwys rhai acronymau diddorol nad oedden ni wedi dod ar eu traws o'r blaen, rhai damcaniaethau busnes a rhywfaint o stwff arall diddorol. Yn wir, mae'n debygol y byddwch chi'n dod o hyd i erthygl neu gwis ar fwy neu lai unrhyw beth sydd a wnelo â busnes yma. Ond peidiwch â chymryd y cyfan o ddifrif.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council